Y MAE'R dôn 'Pantyfedwen' yn haeddu pob canmoliaeth, mae'n cael ei chanu lle bynnag y daw Cymry ynghyd, ac yn ôl y beirniaid swyddogol mae'n anodd meddwl am well uniad na gydag emyn gafaelgar y Parchg W. Rhys Nicholas:

Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist,
Fab Duw,
Tydi a roddaist imi flas ar fyw;

Emyn a thôn a welir yn yr *Atodiad* (1986) i Lyfr Emynau'r Eglwysi Presbyteraidd a Wesleaidd, sef rhif 717.

* * * *

# D. BEN REES yn cofio am
# MORRIS EDDIE EVANS, 1890—1984
## y cyfansoddwr toreithiog a gyfansoddodd 200 o donau gan gynnwys 'Pantyfedwen'

UN dydd Sadwrn yn nechrau'r saithdegau galwodd gŵr yn y Mans yn Lerpwl gan gyflwyno ei hun fel Eddie Evans, Eccles, ond Edge Lane gynt, a rhoi i mi barsel oedd yn cynnwys casgliad o'i donau a braslun o'i fywyd. Mae cynnwys y parsel hwnnw bellach yn ddiogel yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth (Llawysgrif Rhif 22360D). Gan mai dim ond ychydig sydd wedi cael ei ysgrifennu am hynt a helynt y gŵr diddorol hwn a gyfansoddodd dros ddau gant o donau tybiais mai buddiol fyddai croniclo peth o'i hanes.

* * * *

CAFODD Morris Eddie Evans ei eni yn Nhalysarn, Dyffryn Nantlle, Sir Gaernarfon, ar y 5ed o Hydref 1890 mewn tŷ o'r enw Cloth Hall (cartref Gwilym R. Jones, Dinbych, yn ddiweddarach). Yna fe symudodd y teulu i Paris House, sef tŷ a siop gyferbyn â Chapel Mawr, Talysarn. Mae'n ddiddorol sylwi ar yr enwau Saesneg hyn yn y pentref hwn ac mewn llawer i bentref arall. Pan oedd y bychan tua saith oed fe brynodd ei dad 'American organ' fechan iddo ac fe gafodd hyfforddiant arni gan John Jones Owen ac wedi hynny ar yr harmoniwm gan John Robert Jones. Bu'r hyfforddiant hwn yn gymorth amhrisiadwy iddo y ddiweddarach.

Yr oedd ganddo gof byw iawn am yr organ bib gyntaf a welodd hefyd, 'roedd tua un ar ddeg oed ar y pryd. Fe ddaeth yr organ hardd i Dalysarn yr holl ffordd o Huddersfield ac fe wahoddwyd Eddie Evans i fynd i'r Capel Mawr i helpu'r dynion gyda'r offeryn newydd. Hwn oedd y tro cyntaf o lawer iddo gyffwrdd yr organ ac fe gafodd osod ei fys ar y 'Middle C' chwedl yntau, tra 'roedd un o'r dynion yng nghrombil y peiriant yn gosod y bibell hon yn y twll priodol.

Digwyddiad pwysig arall yn yr ardal oedd yr eisteddfod a gynhelid ar Ddydd Iau Dyrchafael yn yr Assembly Rooms. Pan oedd ond yn llencyn deuddeg oed, fe anfonodd dôn i gystadleuaeth yn yr eisteddfod hon. Ni chafodd wobr y tro hwn ond fe gafodd feirniadaeth deg gan J. T. Rees, Penygarn, Bow Street, a nododd mai 'diffyg amrywiaeth' oedd ei gwendid mwyaf. Fe gymerodd y cerddor ifanc sylw manwl o'r feirniadaeth hon. Ymhen ychydig o flynyddoedd wedyn yr oedd J. T. Rees yn cyfeirio at Eddie Evans fel cyfansoddwr oedd 'yn gryn feistr ar wrthbwynt' ac fe fu hyn yn galondid mawr iddo i ddal ati i gyfansoddi.

Cafodd hyfforddiant ar y Tonic Sol-ffa gan Hugh Owen, Brynhyfryd. Yr adeg honno dysgai Hugh Owen tua hanner dwsin o blant yng ngolau'r gannwyll a'r gost oedd ceiniog yr un. Bu gan Eddie Evans feddwl uchel iawn o Hugh Owen ar hyd ei oes.

Digwyddiadau eraill o bwys mawr yn y fro oedd cyfarfodydd pregethu y capeli pryd y byddai hoelion wyth yr enwadau yn dod i Dalysarn yn eu tro. Byddai ei dad a'i fam yn rhoi llety i'r pregethwyr mawr hyn yn eu tro. Un gweinidog a wnaeth argraff aruthrol ar y bachgen ifanc oedd y Parchg D. Tecwyn Evans. Ar ôl oedfa'r bore un tro aeth Tecwyn i Paris House i gael cinio. Ar ôl cinio dywedodd y fam wrth y bachgen ifanc am ddangos ei allu ar yr organ Americanaidd i'r pregethwr dieithr. Wedi i'r bachgen orffen dangos ei ddawn llefarodd Tecwyn Evans y geiriau canmoliaethus, 'Handel Evans yw hwn'. Nid anghofiodd Eddie Evans y sylw hwn.

* * * *

YM MLWYDDYN gyntaf y Diwygiad bu'n rhaid i dad Eddie Evans symud i Lerpwl er mwyn ceisio gwell byd. Nid oedd y siop yn talu mewn cyfnod pan na allai nifer o'r chwarelwyr glirio eu dyledion. Wedi i'r tad gael gwaith yn Lerpwl fe symudodd y fam a'r plant yno hefyd. Yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yn Edge Lane yr ymaelododd y teulu a hynny ar yr amod fod cangen o'r 'Temlwyr Da', rhan o'r Mudiad Dirwest, yn cael ei sefydlu yno. Gwireddwyd dyhead Mrs Evans a bu Teml Gwalia yn Edge Lane yn gefn sylweddol i'r teulu hwn ac i lawer teulu arall yn ystod cyfnodau anodd.

Bu Capel Edge Lane yn bopeth i'r teulu ac yn goleg gwych i Eddie. Fe gafodd gyfle i chwarae'r organ yn yr Ysgol Sul, y Seiat, y Cyfarfod Gweddi a'r Band of Hope, ac yna ymhen amser cafodd gyfle i drio'i law ar yr harmoniwm rhagorol oedd ym meddiant y capel. Yn nyddiau'r Parchg David Jones cafodd ei benodi'n organydd swyddogol y capel a daliodd y swydd am 36 mlynedd. Yr oedd canmol mawr arno fel organydd ac wedi bod yn bresennol mewn digwyddiad yn Edge Lane fe ddywedodd Alfred Thomas, 'Mynyddwr', mewn ysgrif yn *Y Brython* mai yn Edge Lane yr oedd y 'canu gorau' yn Lerpwl gan nodi ymhellach fod yna 'wefreuaeth yn holl waith yr organydd hwn'.

Tra'n byw yn Lerpwl daeth Eddie Evans i adnabod cerddor arall, J. H. Roberts, organydd Capel Chatham Street, a adnabyddid yn y cylchoedd cymanfaol fel 'Pencerdd Gwynedd'. Cafodd Eddie Evans hyfforddiant ganddo ar sut i gyfansoddi tonau. Fe gafodd oriau o hyfforddiant gan J. H. Roberts yng Nghapel Chatham Street. Yn aml iawn byddai J. H. Roberts yn gofyn iddo chwarae ei dôn 'Port Penrhyn'. Eisteddai yntau yn y galeri yn gwrando ar yr organydd ifanc yn ei afiaith. Yr oedd dyled Eddie Evans i J. H. Roberts yn aruthrol. Yr oedd Eddie Evans yn talu am y gwersi wrth gwrs ond ar yr un pryd fe ofalodd Pencerdd Gwynedd ei fod yn ei osod yn gadarn ar y ffordd i fod yn gyfansoddwr tonau cynulleidfaol llwyddiannus.

* * * *

ERBYN hyn yr oedd galw mawr am ei wasanaeth fel organydd. Bu'n chwarae yn y rhan fwyaf o gapeli Cymraeg Lerpwl a Phenbedw yn ogystal ag mewn capeli eraill fel Central Hall a St. George's Hall. Teithiai i Lundain yn gyson, yn arbennig i Charing Cross a Holloway. Uchafbwynt y cyfan oedd cael cyfle i fodio organ ardderchog Abaty Westminster pan oedd Syr Frederick Bridge yn organydd yno a Syr Frederick yn gofyn iddo chwarae'r darn 'God is a Spirit' ar yr organ heb gopi. Cyflawnodd y gamp gan roi boddhad aruthrol i'r 'maestro' ei hun.

Bu hefyd yn arwain dau gôr yn Lerpwl, sef Côr Cymysg Gwalia a Chôr Meibion yr A.T.M. Yr oedd y ddau gôr yn cynnal cyngherddau'n gyson ar hyd a lled Cymru a Lloegr.

Eto i gyd yn y Gymanfa Ganu yr oedd Eddie Evans yn ei elfen. Yr oedd wedi cael blas ar Gymanfa Ganu Dyffryn Nantlle pan yn blentyn ac yna yn Lerpwl cafodd ddigon o gyfle i hyfforddi'r plant ar gyfer Cymanfa'r Plant ac i fod yn rhan allweddol o batrwm y rihyrsals a'r cymanfaoedd. 'Roedd bri ar gymanfaoedd yn Edge Lane ac edrych ymlaen at weld arweinwyr mawr y dydd fel David Jenkins, David Evans, T. Hopkin Evans a Dan Jone, Pontypridd, yn dod yno. Cofiai i David Jenkins arwain dros ugain o gymanfaoedd yn Lerpwl yn unig yn ystod y cyfnod y bu'n byw yno.

* * * *

WRTH DROI i edrych ar fanylion hanes bywyd Eddie Evans gwelwn i'r rhyfel roi terfyn ar ei obeithion o fod yn gerddor proffesiynol. Fe ymunodd â'r fyddin. Merch o'r enw Louise Pierce, a oedd yn enedigol o Fryndu, Sir Fôn, oedd ei wraig gyntaf. Priodwyd hwy yn 1921 a ganwyd un ferch iddynt. Bu Louise Pierce farw yn 1934. Un o Gymry Lerpwl oedd ei ail wraig, Gwyneth — ei thad yn hanu o'r Felinheli a'i mam, Sophia Mills, o Langurig ac o'r un teulu â Millsiaid Llanidloes. Meddai Gwyneth ar lais swynol. Ganwyd un ferch iddynt. Bu Gwyneth farw ym mis Ebrill 1981 a'r flwyddyn wedyn priododd Eddie ag Ethel Dunkerley. Symudodd Eddie Evans a'i deulu o Lerpwl i Brestatyn yn 1950 ond byr fu'r arhosiad yno. Yn 1953 symudodd i Brooklands, ger Sale yn Sir Gaer ac ymaelodi yng Nghapel Cymraeg Altrincham. Ymlaen wedyn i Patricroft, Eccles, yn 1955, lle bu'n organydd yn Eglwys Annibynol Saesneg Patricroft am chwe mlynedd. Bu wedyn am dair blynedd yn organydd yn yr Eglwys Gymraeg yn Charlestown.

Daeth i sylw cenedlaethol fel cyfansoddwr yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd ym Machynlleth yn 1937 pan enillodd tôn o'i eiddo y wobr gyntaf allan o 87 o gystadleuwyr. Yr oedd wedi cyfansoddi chwech o donau ar gyfer y gystadleuaeth ond fe'i cynghorwyd gan ei fam i anfon un yn unig i fewn, sef y gyntaf o'r chwech a gyfansoddodd. Galwodd y dôn yn 'Llangernyw' am fod rhan olaf yr enw yn cynnwys enw awdur yr emyn oedd i fynd efo'r dôn, sef Dr Cernyw Williams, gweinidog adnabyddus gyda'r Bedyddwyr.

Cafodd hwyl dda ar gyfansoddi o Eisteddfod Machynlleth ymlaen. Bu'n fuddugol bedair gwaith o'r bron, 1943-46, ar gyfansoddi tôn yn Eisteddfod Bethania, Ffynnongroyw, a hynny o dan bedwar gwahanol feirniad. O ganlyniad i'r buddugoliaethau hyn cafodd gais gan yr Eisteddfod honno i drawsnodi saith ar hugain o donau o waith y diwedar T. F. Jones, arweinydd Côr Meibion Ffynnongroyw y